




Newid Byd?

Gwladychu, Gwrthdaro a Chymuned



Addasiad Cymreig gan Angharad Tomos
ac Elenid Jones ar ran Cyfanfyd, o'r pecyn
'Colonialism, Conflict and Society'
(DEC [Birmingham] a Trocaire, Dublin, 1993)



Cynnwys

<i>Diben y prosiect: Addysg Datblygiad a Dinasyddiaeth Fyd-eang</i>	1
<i>Cymuned a newid</i>	11
<i>Gwrthdaro</i>	27
<i>Gwladychu</i>	42



**Prosiect Cyfanfyd mewn cydweithrediad
â Chanolfan Addysg Byd - ariannwyd gan
Yr Adran Datblygiad Rhyngwladol (DFID),
Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Cymod**

Gosodwyd ar gyfer y wé gan Dorothy Jones

**Hoffem gyflwyno ein diolch i Scott Sinclair a'r Birmingham DEC
am eu cefnogaeth ac am roi i ni'r hawl i ddefnyddio'r pecyn
'Colonialism, Conflict and Society' fel sail i'r addasiad Cymraeg**

Diben y prosiect

Rhagair

Mewn ymateb i'r prinder dybryd o adnoddau iaith Gymraeg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Addysg Datblygiad, penderfynodd Cyfanfyd fynd ati i ddarparu pecyn ar y wê ar gyfer Ysgolion Uwchradd a fyddai yn ddefnyddiol i athrawon wrth ddysgu'r elfen Dinasyddiaeth o fewn y fframwaith ABCh yng Nghymru.

Sicrhawyd nawdd ar gyfer y prosiect oddi wrth Adran Datblygu Byd-eang y llywodraeth yn San Steffan, ac oddi wrth Cymorth Cristnogol a Chymdeithas y Cymod yng Nghymru. Comisiynwyd Angharad Tomos i addasu pecyn a gyhoeddwyd yn Saesneg gan y Birmingham DEC ar y cyd ag athrawon yn Iwerddon gan ein bod yn gweld sawl elfen berthnasol i Gymru yn y pecyn hwn. Ers digwyddiadau Medi 11^{eg}, mae'r pynciau a drafodir yn y pecyn hwn yn fwy pwysig nag erioed.

I weithio ar y prosiect gwreiddiol '*Colonialism, Conflict and Community*', daeth athrawon oedd yn gyfarwydd â'r dyniaethau at ei gilydd. Yr oeddynt eisiau ymestyn eu profiad o ddysgu drwy ddefnyddio prosesau dysgu a pherspectif Addysg Datblygiad. Defnyddir methodoleg Addysg Datblygiad sydd yn tanlinellu'r pwysigrwydd o ddysgu trwy brofiad gan ddefnyddio dulliau cyfranogol megis chwarae rôl.

Mae'r deunydd yn arbennig o addas i'r CA 3 a 4 yn ABCh yn ogystal ag Addysg Grefyddol; cynlluniwyd y pecyn yn wreiddiol ar gyfer ymdriniaeth draws-gwricwlaidd gan fod Gwrthdaro a Chymuned yn bynciau sydd yn cyffwrdd â nifer o bynciau astudio ac yn y cyd-destun arbennig hwn buasai yn fodd cyffrous i wau Dinasyddiaeth Fyd-eang i mewn i bynciau fel Cymraeg, Daearyddiaeth a Hanes yn ogystal ag ABCh ac Addysg Grefyddol.

Gellir, yn ogystal, gymhwyso'r gweithgareddau ar gyfer ABCh yng Nghyfnod Allweddol 5.

Buasai hefyd yn adnodd atodol defnyddiol ar gyfer rhai agweddau a allai godi wrth i athrawon ddilyn methodoleg "Byd-weithio!" ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang a gyhoeddwyd yn 2003. Gellir archebu copïau oddi wrth Cymorth Cristnogol neu Oxfam Cymru.


Beth a olygir wrth Ddinasyddiaeth Fyd-eang ac addysg datblygiad?

Mae'r cysyniadau a'r materion a drafodir yma yn sylfaen i **syniadau dysgu ymarferol** a gynigir yn y llyfr hwn. Gobeithiwn y bydd yn bwynt cyfeirio cyfleus wrth i chi drefnu eich themau eich hunain.

Proses addysgu a pherspectif yw Addysg Datblygiad yn hytrach na phwnc. Bydd y tudalennau dilynol yn cynnig golwg ar hyn drwy gyflwyno:

- rhai amcanion i addysg datblygiad
- y prif gysyniadau a ddefnyddiwyd wrth gynllunio ein themau.
- prif egwyddorion addysg datblygiad.
- ambell i her a gynigir gan addysg datblygiad.


Enwodd y prosiect chwe prif gysyniad:



Amcan addysg datblygiad yw:

- annog dealltwriaeth drwy gyflwyno mwy nag un safbwynt;
- datblygu ein sgiliau a'n hymagweddiad i beri newid gwirioneddol a fydd yn arwain at fyd mwy cyfiawn a heddychlon;
- ein paratoi i fyw mewn byd sydd yn gynyddol ryng-ddibynnol;
- datblygu ein gallu i feddwl yn feirniadol, i gael annibyniaeth barn, er mwyn ein galluogi i weithredu yn adeiladol ac mewn modd addas.

Y model cysyniadol ar gyfer Addysg Datblygiad



Gellid cyflwyno'r chwe cysyniad fel rhannau o'r un cylch. Mae unrhyw fater a ddodir yng nghanol y cylch yn ymwneud â'r holl gysyniadau hyn.

Mae pob cysyniad yn croesi dimensiwn personol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ymrwymiad y myfyriwr â mater penodol. Gellir cael gwell dealltwriaeth o bob dimensiwn os astudir ef yng ngoleuni dimensiwn gwahanol.

Gellir cychwyn astudio pwnc ar unrhyw bwynt yn y cylch a symud i ba gyfeiriad bynnag.

Mae Addysg Datblygiad yn:

... gymhleth

Mae materion datblygiad yn gymhleth yn eu hanfod. Ychydig iawn o faterion sydd yna lle gellir rhoi ein bys ar 'un' achos cyfiawn, neu 'un' ateb cywir. Yn amlach na pheidio, mae angen astudio pwnc o fwy nag un safbwynt a'i ddehongli mewn mwy nag un modd. Mae addysg datblygiad yn ceisio creu amgylchfyd dysgu sydd yn derbyn cymhlethdod pynciau, lle nad yw rhywun yn canfod ateb cywir/ anghywir a phroblem/ datrysiad.

... broses ac yn safbwynt - yn ffordd o edrych ar y byd

Proses yw addysg datblygiad, taith nad yw byth yn dod i ben, yn hytrach na symudiad rhwng pwyntiau sydd wedi eu gosod eisioes. Mae'r safbwyntiau byd-eang a chyfiawnder yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwr ar y daith hon, gan eu galluogi hwy i edrych ar y byd a'i ddeall mewn ffordd sydd yn addas iddynt hwy ac sy'n cymryd eraill i ystyriaeth.

Mae'r safbwynt byd-eang yn codi cwestiynau ynglyn â'r byd fel un uned gyflawn, ac mae'n creu ymwybyddiaeth o hyn. Mae'r safbwynt cyfiawnder yn dadlau fod sefyllfa'r byd fel ag y mae yn annerbiniol i'r mwyafrif o bobl, sef y tlawd.

... ddadleuol

Mae addysg datblygiad yn delio gyda phynciau dadleuol o fewn muriau dosbarth.

Gall anghydweld godi o ganlyniad i anwybodaeth, diffyg gwybodaeth neu wrthdaro mewn daliadau a gwerthoedd amhosibl i'w cysoni.

Nid yw Addysg Datblygiad yn:

... ymwneud yn unig â'r 'Trydydd Byd'

Mae llawer o athrawon yn ystyried addysg datblygiad fel rhan arbenigiol o addysg sy'n ymwneud yn unig â materion datblygu a phroblemau 'y trydydd byd' / 'y byd sy'n datblygu'. Mae materion datblygu yn gyffredin i bob gwlad, a gellir trafod addysg datblygiad ar y lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

... ymwneud yn unig â phroblemau

Mae addysg datblygiad yn ceisio tynnu sylw at arwyddion o obaith ym mywyd y byd heddiw, at wahanol ddulliau o fyw, perthynas wahanol rhwng pobl, a diwylliannau gwahanol. Ar yr un pryd, mae'n ymdrin â gweithgareddau sy'n gyffredin ymysg pobloedd y byd, gan helpu myfyrwr i uniaethu â phobl mewn gwledydd eraill.

... bwnc penodol.

Nid oes maes llafur i addysg datblygiad. Gan mai proses a ffordd o edrych ar y byd ydyw, ni ellir ei gyfyngu i adran ar wahan i bynciau eraill. Mae'n ymwneud â daearyddiaeth, addysg grefyddol, hanes, gwyddoniaeth, Cymraeg ac ati.

... annog rhoi cymhorthdal yn unig

Dim ond un ffurf ar roi cymorth yw casglu arian, ac mae myfyrwr yn dymuno dilyn y trywydd hwn ambell waith wedi dysgu am fater penodol. Mae addysgu'r hunan, yn athrawon a myfyrwr, ac addysgu eraill yn ran ganolog o'r gwaith am gyfiawnder ac yn ffurf bwysig o weithgarwch. Mae dysgu am addysg datblygiad drwy themau traws-gwricwlaidd yn yr ysgol yn gallu creu amgylchedd dysgu diddorol. Gall hefyd fod yn ganolbwynt i weithredu sydd yn deillio o'r ysgol e.e. drama; cyflwyniad gweledol; gweithdai; seminarau.

Erbyn hyn, mae Addysg Datblygiad yn brysur dod yn gyfystyr â Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae gan Ddinasyddiaeth Fyd-eang le arbennig yn y fframwaith ABCh ac mae'n bosib ei ddysgu o fewn yr oriau penodol ar gyfer ABCh yn yr ysgol. Ond teimlwn yn gryf bod y dull traws-gwricwlaidd o gyflwyno Dinasyddiaeth Fyd-eang yn dal yn hynod bwysig, yn enwedig yng Nghymru lle nad yw Dinasyddiaeth, fel y cyfryw, yn bwnc cyflawn ar ei ben ei hun.

Sialens dysgu yn draws-gwricwlaidd

Osgoi gor-symleiddio

Un perygl wrth ddysgu am ddatblygiad yw'r duedd i or-symleiddio materion cymhleth, sefyllfaoedd a syniadau i fyfyrwyr. Golyga hyn mai ychydig iawn o ddadansoddi a wneir i achosion gwrthdaro. Y mae'n bwysig edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn y byd yn nhermau achosion a chanlyniadau, yn hytrach nac yn nhermau problemau a ffyrdd o'u datrys.

Dysgu am faterion a gwerthoedd

Mae cael safbwynt fyd-eang yn golygu cael myfyrwyr i drafod materion llosg a chydabod gwerthoedd. Golyga gael amgylchedd dysgu nad yw o reidrwydd yn arwain at weithgaredd â chanlyniad pendant, un lle bydd mwy nag un ateb 'cywir' i gwestiwn, lle teimla myfyrwyr yn rhydd i fynegi safbwynt a barn. Mae'r amgylchedd dysgu i fod i adlewyrchu y byd go iawn.

Cymryd rhagfarn ethnoganolog i ystyriaeth

Gall rhagfarn fod yn amlwg neu'n guddiedig, ond mae o wastad yno – yn y dosbarth, yn ein hagwedd, yn ein llyfrau gosod, yn y maes llafur a ddysgwn. Mae'n bwysig magu ymwybyddiaeth o ragfarn ethno-ganolog, rhagfarn a wreiddwyd yn ein cefndir ethnig a diwylliannol. Un ffurf ar ragfarn o'r fath yw'r awydd i osod modelau 'byd cyntaf' o ddatblygiad fel modd o ddatrys datblygiad 'trydydd byd'.

Dysgu am ryng-ddibyniaeth

Hanfod addysg datblygiad yw cynyddu ein dealltwriaeth o ryng-ddibyniaeth pobloedd, gwledydd a rhanbarthau'r byd. Mae'r hyn sy'n digwydd ar lefel leol yn cael ei benderfynu gan, ac yn gallu effeithio ar, yr hyn sy'n digwydd ar lefel ryngwladol.

Gosod adroddiadau cyfryngau mewn cyd-destun

Mae'r cyfryngau yn ddylanwad hynod o gryf ar fyfyrwyr ym maes materion datblygiad. Tuedd y cyfryngau yw rhoi adroddiadau am drychinebau a digwyddiadau eithriadol yn hytrach na phrosesau tymor hir a normalrwydd dyddiol, ac o ganlyniad caiff myfyrwyr ddarlun unochrog o'r 'trydydd byd'. Mae angen gosod sylw'r cyfryngau yn ei gyd-destun yn gyson. Dylid unioni ei bwyslais negyddol gyda thystiolaeth o gynnydd a gwelliant ym mywydau pob dydd pobl.

Gosod lle i weithredu

Wedi astudio pwnc penodol, yn aml iawn, bydd myfyrwyr eisiau gwneud rhywbeth yn ei gylch. Ar yr un pryd, mae'n bosibl na fyddant eisiau gwneud unrhyw beth. Mae yna bob math o weithgareddau y gall myfyrwyr gymryd rhan ynddynt, yn dibynnu ar yr achos. Swyddogaeth yr athro/athrawes yw sianelu'r awydd hwn i weithredu mewn dull sy'n addas ar gyfer y myfyriwr e.e. arddangosfa yn yr ysgol, gosod banc poteli, llythyr i gynghorydd lleol neu newidiadau yn ymddygiad aelodau'r dosbarth tuag at ei gilydd.

Pam mae'r ymdriniaeth draws-gwricwlaidd yn werthfawr

- Mae'n dwyn dysgu yn nes at realaeth**
Mae'r dull hwn yn helpu myfyrwyr i weld y cysylltiad rhwng pynciau, sydd yn adlewyrchiad tecach o fywyd yn y byd go iawn.
- Mae'n rhoi dyfnder i'r profiad addysgol.**
Mae'r dull hwn yn codi uwchlaw ffiniau pynciau ac yn caniatáu defnydd mwy creadigol o amser gan ei fod yn osgoi atgynhyrchu diangenrhaid mewn pynciau. Mae hyn yn caniatáu mwy o amser yn y dosbarth i astudio materion mewn mwy o ddyfnder.
- Mae'n caniatáu ymdriniaeth drwy gysyniad yn hytrach nag un wedi ei seilio ar wybodaeth.**
Mae ymdriniaeth wedi ei seilio ar gysyniad yn annog cynllunio creadigol ac addysgu sy'n seiliedig ar weithgaredd.
- Mae'n rhoi profiad dysgu gwahanol i'r myfyrwyr**
Dim ond un o ystod eang o brofiadau dysgu yw'r ymdriniaeth draws-gwricwlaidd a fedr gyfrannu at ddealltwriaeth o bwnc penodol.
- Mae'n caniatáu athrawon i ledaenu eu profiad.**
Daw athrawon yn fwy ymwybodol o gysylltiadau rhwng pynciau, maent yn rhannu methodoleg ac adnoddau. Yn ei dro, mae hyn yn ysbrydoli eu haddysgu eu hunain.

Sut gellir cyflwyno ymdriniaeth draws-gwricwlaidd?

Mae sawl ffordd i gyflwyno'r syniad hwn i ysgol:

- Gallai'r symbyliad ddod gan athro/athrawes sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r syniad yn yr ysgol.
- Gallai grŵp o athrawon o un pwnc penodol neu o nifer o wahanol bynciau ddod at ei gilydd i edrych ar bosibiliadau defnyddio'r ymdriniaeth hon.
- Mae'r athro/athrawes gyda'r cyfrifoldeb am ddatblygu'r cwricwlwm ABCh yn dewis aelod o'r staff a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am ddarn o waith gyda chanolbwynt traws-gwricwlaidd. Gallai hyn fod oherwydd arbenigedd yr athro/athrawes neu ran o'i ch/gyfrifoldeb. Mae'n bosibl i'r athro/athrawes hyrwyddo, arolygu a chyd-lynu darn o waith gan adrodd yn ôl i'r un sy'n datblygu'r cwricwlwm.
- Gall y symbyliad ddod o ffynhonnell tu allan i'r ysgol e.e. Canolfan Addysg Fyd-eang, Uned Datblygu'r Cwricwlwm neu athro ymgynghorol yn cyflwyno'r ymdriniaeth hon i ysgol ac yna yn ei chefnogi.

Strategaeth ar gyfer gwaith traws-gwricwlaidd

Mae sawl ffordd wahanol o ymgymryd â gwaith traws-gwricwlaidd. Dyma dair strategaeth a ddatblygwyd ac a brofwyd gan athrawon oedd yn ymwneud â'r prosiect hwn. Gellir addasu'r ymdriniaeth i unrhyw thema. Y rhain yw sylfeini, rhai o'r enghreifftiau a ddefnyddir yn y llawlyfr hwn.

Ymdriniaeth Cydgysylltiedig

● Amcanion

Cafodd yr athrawon sesiwn drafod i weld beth yr hoffent i'r myfyrwyr ei gael o'r thema Cymuned a Newid.

● Amseru

Hanner tymor, tua 6/7 wythnos

● Ymdeimlad o'r 'prosiect'.

Cychwynnwyd ar y prosiect gyda sesiwn ar y cyd i'r holl fyfyrwyr. Cawsant ddrama gan grŵp theatr mewn addysg ynglŷn â datblygu o fewn eu cymuned hwy.

● Ymdriniaeth

Penderfynwyd defnyddio'r ymdriniaeth gydgysylltiedig. Buont yn trafod pa agwedd o'r thema y byddai pawb yn ymdrin ag o yn eu pwnc eu hunain gan gydweddu y rhain gyda'r maes llafur perthnasol.

Mewn hanes ...

Gallai'r thema gyflawni'r gofynion canlynol mewn hanes gymdeithasol ac economaidd TGAU:

- tŵf tai a materion iechyd yn y chwyldro diwydiannol.
- tŵf aruthrol y trefi/gorboblogi.
- diwygiadau iechyd cyhoeddus
- newidiadau mewn amodau tai, cymharu gwahanol ddatblygiadau tai – e.e. Penrhys, Butetown, Duly, Nicaragua. (tud 23 - 24)
- y cynghorau/llywodraeth yn raddol gymryd cyfrifoldeb dros ddatblygiadau cymdeithasol yn yr ugeinfed ganrif.

Mewn daearyddiaeth...

Gallai'r thema ateb y gofynion canlynol:


- cymharu ardaloedd preswyl; nodweddion cymdeithasol ac economaidd e.e. Penrhys a Butetown.
- symudiad pobl, tueddiadau poblogaeth e.e. Nicaragua (tud 24)
- datblygiad economaidd – lleoli diwydiannau
- gwrthdaro ynglŷn â defnydd tir – cwrdd â gwahanol anghenion y gymuned e.e. gwasanaethau, cyfleusterau siopa.

Gwaith maes ar y cyd

Bu'r tîm gwreiddiol o athrawon yn trefnu diwrnod cyfan o waith maes er mwyn:

- gwneud arolygon amgylcheddol
- cyfweld pobl i ganfod ers faint yr oeddynt yn byw yno, eu barn am yr ardal.
- astudio gwahanol fathau o dai a defnydd tir, tynnu lluniau a defnyddio peiriant fideo i gofnodi.

Gwahoddwyd cynllunydd o'r Cyngor i ddod i siarad am gynllunio lleol. Buont yn trafod sut y gallai Adran Gynllunio y Cyngor a'r ysgol gyd-weithio.



Ymdriniaeth Gyfunol

● Amcanion

Bu'r tîm gwreiddiol o athrawon yn cael sesiwn drafod i weld beth yr hoffent i'r myfyrwyr ei gael o'r thema gwladychu.

● Amseru

Pedair wythnos. Rhoddwyd un cyfnod paratoi bob wythnos i'r grŵp athrawon.


● Ymdeimlad o'r 'prosiect'

Bu'r myfyrwyr yn chwarae *Y Gêm Fasnach* ar ddechrau'r uned i beri iddynt gael y profiad o fod mewn grym fel sydd gan rai gwledydd dros wledydd eraill. Fel gweithgarwch i gloi, creodd pob grŵp ganeuon a'u cyflwyno fel anthemau i'r Gymuned Ewropeaidd.

● Ymdriniaeth

Penderfynwyd defnyddio'r ymdriniaeth gydlynol, lle byddai pob athro yn cyflwyno yr holl wahanol anghenion pwnc i'w dosbarth. Cyfarfu'r grŵp a dynodi'r gwahanol feysydd yr oeddent eisiau ymdrin â hwy, e.e. hanes, iaith, daearyddiaeth.

Gwahoddodd rhai aelodau o'r grŵp athrawon eraill i'w dosbarth ar rai adegau penodol e.e gofynnodd un athro i'r athrawes gerdd ddod i helpu yn ystod gwaith y dosbarth ar anthemau cenedlaethol.



Ymdriniaeth Gyfunol yn defnyddio dysgu hyblyg

● Amcanion

I'r myfyrwyr:


- i alluogi myfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb dros ddyfeisio a rheoli eu dysgu eu hunain.
- i'w galluogi i gael y profiad o weithio o fewn amgylchedd aml-ddisgyblaeth
- i feithrin gwaith grŵp gyda gallu cymysg
- i helpu myfyrwyr i fyfyrio ar eu gallu a'u gorchestion, ac i ddechrau gosod amcanion personol i lywio profiadau dysgu yn y dyfodol.

I'r staff:

- i alluogi staff o sawl disgyblaeth wahanol i weithio'n glos gyda'i gilydd ac i rannu profiadau.
- i gyflwyno elfennau o ddysgu hyblyg
- i ddarparu anogaeth i barhau cyswllt traws-gwricwlaidd
- i ddatblygu'n bellach ymwybyddiaeth o gyfleoedd ysgol/ diwydiant.

● Amseru

Wythnos



● Ymdeimlad o'r 'prosiect'.

Beth amser cyn wythnos y prosiect, rhoddodd myfyrwyr o ysgol arall oedd hefyd wedi ymdrin â **thema'r Amgylchedd**, gyflwyniad o'r gwaith a wnaed ganddynt. Yr oedd eu brwdfrydedd yn heintus a gadawyd y disgyblion yn disgwyl yn eiddgar am yr wythnos oedd i ddod.

Anogwyd staff a myfyrwyr i fyfyrio ar yr hyn y gallai'r prosiect ei gyflawni, ac i ddefnyddio hyn fel sail i ddatblygiad sgiliau pellach. Gwnaed hyn ar sail dydd i ddydd o fewn y grwpiau, wrth i fyfyrwyr gadw cofnod personol o'u profiadau. Fe'u hanogwyd i drafod y rhain gyda'i gilydd a'r athrawon. Gwnaeth pob athro werthfawrogiad o'r prosiect gan ei gyflwyno mewn pwyllgor staff llawn.

● Ymdriniaeth

Daeth athro â chyfrifoldeb dros gychwyn gwaith traws-gwricwlaidd â chynrychiolydd o bob cyfadran at ei gilydd – Dyniaethau, Cysylltiadau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, i ffurfio grŵp cydweithredol i gynllunio gwaith ar yr amgylchedd.

Nid oedd yr athrawon a oedd yn gynrychiolwyr yn benaethiaid adrannau. Y cyd-gysylltydd oedd yn gyfrifol am hyfforddiant mewn ymdriniaethau dysgu hyblyg. Yr oedd pob aelod o'r grŵp cyd-gysylltu yn gyfrifol am dîm cymysg o athrawon pwnc. Datblygodd y tîm ddeunydd a syniadau dysgu o amgylch chwe gwahanol is-thema. Anogwyd myfyrwyr hefyd i gyfrannu syniadau i'r rhaglen.

Yr oedd gan y myfyrwyr ddewis rhydd i ddilyn chwe is-thema. Yr oeddynt yn gweithio ar hyn mewn grŵp o allu cymysg.

- Amgylchedd i bobl gydag anabledd.
- Amgylchedd ysgol - sut y gellid ei wella.
- Amgylchedd ysgol – sut i gael dylanwad ar welliant ymarferol [trodd y myfyrwyr iard yr ysgol yn le chwarae i blant]
- Sut mae'r ardal wedi newid dros gyfnod o amser – beth yw barn y trigolion am y newidiadau
- Materion amgylcheddol e.e cael gwared ar wastraff, ail-gylchu
- Yr amgylchedd yn gyffredinol.


Anogwyd myfyrwyr i werthuso y prosiect a'u sgiliau. Cadwasant gofnod o'u profiadau. Yr oedd hwn hefyd yn sail i drafodaethau gyda myfyrwyr eraill ac athrawon i gynllunio gwaith pellach.

Trefnu gwaith traws-gwricwlaidd

Daw'r rhestr hon o brofiadau athrawon fu'n ymwneud â'r prosiect.



Gobeithiwn y bydd yn ddefnyddiol os ydych yn ystyried ymgymryd â gwaith traws-gwricwlaidd yn eich ysgol.

Cychwynnch drwy ofyn rhai cwestiynau sylfaenol:





Nod

Beth ydych chi eisiau ei wneud?
Pam rydych chi eisiau ei wneud?




Amcanion

Beth ydych chi am i'r myfyrwyr wybod?
Pa gysyniadau gwaelodol a pha faterion
ydych chi'n dymuno eu cyflwyno?
Pa sgiliau a hoffech i'r myfyrwyr eu cael?
Pa agweddau a ddymunwch eu harchwilio?



Ymarferoldeb

Pa ymdriniaeth draws-gwricwlaidd ydych
chi am ei defnyddio?
Sut ydych chi am ennyn diddordeb y staff?
Sut ydych chi'n mynd i gyd-lynu'r gwaith?
Sut ydych chi'n mynd i
gynnwys staff rheoli yr ysgol?



Gwerthuso

Sut fyddwch chi'n gwybod beth a
ddysgodd y myfyrwyr?
Beth ddysgoch chi?
Sut fydddech chi'n gwella arno y tro nesa?

